



Plant y Cymoedd - Cydraddoldeb wrth Galon ein Gwaith

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Celfyddydau 2025-2026

Cyngor Celfyddydau Cymru

Tachwedd 2025



‘... gwirioneddol ysbrydoledig ac uchelgeisiol. Mae’n dangos ymarfer gorau ym mhob agwedd ar ei waith.’

Plant y Cymoedd – enillydd y DU
Gwobr y British Urban Regeneration Association

VALLEYSKIDS.ORG



'Mae ymwneud â Plant y Cymoedd nid yn unig wedi newid fy mywyd i – mae wedi newid bywyd fy nheulu hefyd.'

Defnyddiwr Gwasanaeth

Cyflwyniad a Chyd-destun

"Mae'r anghydraddoldeb sy'n dominyddu'r dirwedd yn economaidd-gymdeithasol, nid lleiaf oherwydd graddfa ei effaith, cwmpas ei ddylanwad, a dwyster yr anghydraddoldebau a grëir. Yn gyffredinol, nid yw pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, ar gyfartaledd, yn mwynhau'r un ansawdd bywyd â phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch."

Cymru Decach, Cydraddoldeb, hawliau dynol a pherthnasoedd da (Mawrth 2011)

Nid yw anghydraddoldeb yn y Cymoedd yn ymwneud â methiannau unigol ond yn hytrach â ffactorau hanesyddol a strwythuredig – y cwmpas diwydiannol, polisi economaidd, ac esgeulustod hirdymor. Mae'r grymoedd hyn, a grëwyd gan ddiweithdra ac amddifadedd sydd wedi ymwreiddio, yn parhau i lywio bywyd yn y rhanbarth heddiw. Mae'r gwahaniaethau wedi'u hymwreiddio mewn amodau cymdeithasol ehangach – incwm, ansawdd bywyd, disgwyliad oes, canlyniadau iechyd, addysg, tai, ac amgylchedd cymunedol.

Gwreiddiau yn y Gymuned

Eleni, roedd Plant y Cymoedd wrth eu bodd yn derbyn cynnydd bychan yn y cyllid a dderbyniwyd drwy'r Adolygiad Buddsoddi. Mae hyn wedi ein galluogi i barhau i dyfu ein darpariaeth Sparc (sy'n cynrychioli 80% o'r gwaith portffolio) ond hefyd i ddatblygu ein rhaglen ysgolion a'n rhaglen celfyddydau gweledol ynghyd â'n Hartist Preswyl, gan greu gwaith unigryw gydag oedolion hŷn â ffocws cymunedol cynyddol ar fynd i'r afael ag ynysu ac unigrwydd.

Sparc yw'r darparwr celfyddydau ieuencid ar gyfer Plant y Cymoedd, a bu mewn bodolaeth ers 1998. Mae Francois Matarasso yn 'A Restless Art' (2019) yn disgrifio sut y mae'r celfyddydau'n gweithredu fel rhan annatod o Blant y Cymoedd: "participatory arts running through it like the letters in a stick of rock" (2019, tud. 161). Rydym yn creu amgylchedd cefnogol i bawb. Drwy ddatblygu perthnasoedd â phobl ifanc, teuluoedd ac oedolion hŷn, mae aelodau o'r gymuned yn cael mynediad at ein gwaith ar draws y cenedlaethau.

Elfen allweddol o'n gwaith yw ymarfer cydweithredol gyda phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhwyngwladol sy'n galluogi pobl ifanc, pobl hŷn, artistiaid sy'n dod i'r amlwg a theuluoedd i gael mynediad at amrywiaeth gyfoethog o gyfleoedd. Mae hyn yn cynnwys gwaith yn yr iaith Gymraeg, a gweithio gydag artistiaid a sefydliadau Anabl, LHDTG+ a'r Mwyafrif Byd-eang i sicrhau bod pobl a ddaw yn bennaf o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn cael profiad amrywiol a chyfoethog sy'n ateb eu hanghenion. Rydym yn cefnogi dull o weithio sy'n ystyriol o drawma, ochr yn ochr â Thîm Teuluoedd Plant y Cymoedd.

Cynhwysiant Wrth Galon y Gwaith

VALLEYSKIDS.ORG



Mae cynhwysiant wrth galon ein cynllun celfyddydau. Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas sy'n fwyfwy anghyfartal, ac mae hyn i'w weld yn fwyaf amlwg yng Nghymoedd De Cymru lle ceir rhai o'r cymunedau tlotaf yn Ewrop. Mae anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol yn parhau i fod yn felltith ar ein cymdeithas gyfredol, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad 'Cymru Decach' yn 2011, a'r canfyddiadau dilynol ar ôl y pandemig byd-eang.

"Gwnaeth Covid waethygu'r tlodi i'r rheini sydd eisoes yn byw mewn amddifadedd ac ehangodd y bylchau mewn incwm, tai, a mynediad digidol. Gwelodd 24% o aelwydydd yng Nghymru ostyngiad mewn incwm, gyda 11% yn adrodd bod eu hincwm wedi gostwng 'llawer'."

Briff Polisi Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2022)

Mae gwaith Plant y Cymoedd yn digwydd mewn ardaloedd difreintiedig yn unig. Mae ein sefydliad wedi'i ymwreiddio'n ddwfn ym mywydau'r bobl leol, ac mae pob rhan o'n cymuned yn ei barchu ac yn ymddiried ynddo'n fawr.

Mae Plant y Cymoedd a Sparc yn darparu gwasanaethau allweddol yng nghymunedau Rhondda Cynon Taf, sydd ymhlith y 10% uchaf o gymunedau difreintiedig yng Nghymru. Yn yr ardaloedd hyn, mae Plant y Cymoedd yn gweithredu o safle o gryfder gyda dros 40 mlynedd o brofiad o gynnal mentrau arloesol sy'n datblygu cymunedau, gan weithio gydag unigolion a theuluoedd difreintiedig. Mae'r hinsawdd economaidd yn cael effaith drychinebus ar y cymunedau hyn, sydd eisoes yn dlawd, yn enwedig gyda chyflwyno'r Credyd Cynhwysol a theuluoedd yn mynd i ddyled. Mae'r pandemig diweddar, y cynnydd mewn costau byw, a chostau tanwydd sy'n codi'n barhaus, wedi tynnu sylw at yr anghyfartaledd strwythurol hwn.

"Mae Cymoedd De Cymru'n dangos anghyfartaledd ar draws ystod o ddangosyddion iechyd, lles ac addysg."

Ein Cymoedd, Ein Dyfodol (2017)

Er gwaetha'r ffaith fod Rhondda Cynon Taf ymhlith y 10% o Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig, mae'n derbyn dim ond £4.35 y pen ar gyfer y celfyddydau, o'i gymharu â Chaerdydd lle y mae'r ffigur bron yn £30 y pen. Byddwn yn parhau i lobio am gyllid ychwanegol ar gyfer Cymoedd De Cymru, yn enwedig pan fo'r gwaith o safon ac ansawdd ardderchog. Mae'r gwerth am arian a gynigir gan Plant y Cymoedd yn ddigyffelyb.

Ein Dull

Ein dull yw gweithio ochr yn ochr â chymunedau lleol a'u cefnogi i gyrraedd eu potensial. Mae hyn wedi'i ymwreiddio yn ein trefniadau llywodraethiant. Er mwyn bod yn aelod o'n Bwrdd o ymddiriedolwyr, rhaid i chi fod wedi gweithio fel gwirfoddolwr yn ein cymunedau a dangos ymrwymiad uniongyrchol i'r gwaith. Mae hyn yn ein galluogi i gynnwys dynion a menywod lleol ar ein Bwrdd sy'n cyfrannu'n uniongyrchol i'n cymunedau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn byw ac yn gweithio yma. Mae gan Aelodau ein Bwrdd brofiad ar draws y sector cyhoeddus (gan gynnwys iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r celfyddydau), y sector preifat a'r trydydd sector (gan gynnwys mentrau cymdeithasol a datblygu cymunedau). Pum mlynedd yn ôl, ymunodd pobl ifanc â'n bwrdd fel ymddiriedolwyr (un fel prentis); roedd y ddau wedi gwneud llawer o waith gyda Sparc. Yr hyn y mae ein Bwrdd yn ei rannu yn gyntaf ac yn fwyaf pwysig yw ymrwymiad i gydraddoldeb a sicrhau bod y bobl fwyaf difreintiedig ac agored i niwed yn ein cymunedau yn cael eu rhoi wrth galon ein gwaith.

Mae Jason Camilleri, sy'n bennaeth ar y tîm Dysgu Creadigol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, yn aelod o'n Bwrdd. Mae ganddo berthynas hirsefydlog â Plant y Cymoedd, a bu'n gwirfoddoli gyda'r sefydliad yn y gorffennol. Mae wedi gweithio gyda Sparc drwy'r bartneriaeth 'Yn Gryfach Ynghyd', sydd bellach yn ei seithfed flwyddyn.

VALLEYSKIDS.ORG



Mae ein Cyfarwyddwr Celfyddydol (Cyfarwyddwr Artistig Sparc yn flaenorol) wedi cwblhau'r rhaglen 'Newid Diwylliant' yn ddiweddar a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a bu'n gweithio ochr yn ochr â'r holl gwmnïau Cenedlaethol yng Nghymru tuag at greu portffolio celfyddydau mwy cynhwysol ac amrywiol yng Nghymru. Un o'r nodau allweddol yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru yw sefydlu Cymru fel cenedl wrth-hiliol flaenllaw yn 2025; mae'r rhaglen hon yn bwydo'n uniongyrchol i mewn i'r broses honno.

Gweithio gyda Phobl a chanddynt Nodweddion Gwarchodedig

Rydym yn gwbl gyfarwydd â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n gwarchod pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle, yn helpu gyda chyfleoedd cyfartal, ac yn helpu i feithrin perthnasoedd da rhwng pobl a chanddynt nodwedd warchodedig, a'r rhai nad oes ganddynt y nodweddion hynny.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/85019/equality-duty.pdf

Rydym yn cytuno â'r dadansoddiad a gyflwynir gan yr adroddiad 'Cymru Decach' (2011), sef wrth sicrhau cydraddoldeb ar gyfer ein cymunedau, rhaid i ni edrych ar y rhyngberthynas rhwng tlodi a sefyllfa pobl o grwpiau gwarchodedig er mwyn sicrhau nad oes neb yn cael eu heithrio o'n hymarfer.

"Nid yw'n ddigon ffocysu ar grwpiau economaidd-gymdeithasol is heb gydnabod y gallai sefyllfa menywod a dynion, gwyn ac o leiafrif ethnig, a phobl abl ac anabl, fod yn wahanol iawn o fewn y grwpiau hynny. Yn yr un modd, nid yw'n ddigon ffocysu'n unig ar grwpiau gwarchodedig, waeth beth fo'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol."

Cymru Decach, Cydraddoldeb, hawliau dynol a pherthnasoedd da: Mawrth 2011

Arferion Arloesol - Dechrau sgysiau newydd

Mae Sparc yn canolbwyntio'n bennaf ar waith gyda phobl ifanc, ond o fewn y cylch gwaith hwnnw, rydym yn hynod ymwybodol o broblemau sy'n berthnasol i bobl o bob oedran, rhywedd, anabledd, hil, credoau crefyddol ac anghenion unigolion o'r mwyafrif byd-eang yn ein cymunedau. Yn sgil cynnwys ein portffolio celfyddydau gweledol yn yr adolygiad buddsoddi diweddar, mae gan yr Artist Preswyl fwy o gyfleoedd i ddatblygu ei gwaith gydag oedolion hŷn, ac yn enwedig i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol ac unigedd.

Ardal dosbarth gweithiol gwyn yw Cymoedd De Cymru'n bennaf, a chanddi hanes rhyfeddol o Ryngwladoliaeth, ond sydd bellach wedi newid yn ardal ôl-ddiwydiannol lle y mae llawer o'r cysylltiadau hynny wedi cael eu torri. Tra bod demograffeg Rhondda Cynon Taf yn newid, mae diffyg mynediad uniongyrchol at ddiwylliannau eraill o hyd. Yn rhy aml, caiff canfyddiadau eu ffurfio trwy'r cyfryngau (yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol) sy'n amlygu agweddau negyddol materion megis mewnfudo a chrefydd. Gall hyn helpu i feithrin hiliaeth a senoffobia, yn enwedig pan fo cymunedau'n teimlo eu bod dan warchae ac wedi eu hanghofio. Amlygwyd hyn yn fwyaf diweddar yn ailymddangosiad y dde eithafol mewn cymunedau yng Nghymoedd De Cymru. Mae'r Ymgyrch 'Mae Bywydau Du o Bwys' wedi tynnu

VALLEYSKIDS.ORG



syllw pawb at yr angen i ailedrych ar bob agwedd ar ein harferion gweithio, a sicrhau ein bod yn gwneud pob ymdrech i fynd i'r afael â hiliaeth ac anghydraddoldeb. Yn yr un modd, mae'r ymgyrch #WeShallNotBeRemoved ar ran artistiaid a chyfranogwyr anabl wedi canolbwyntio ein meddwl ar sicrhau mynediad gwell ar gyfer artistiaid a chyfranogwyr anabl. Mae'r naill ymgyrch a'r llall wedi rhybuddio yn erbyn cymryd agwedd 'ticio'r blwch' tuag at gydraddoldeb; yn Plant y Cymoedd, rydym yn ceisio datblygu agwedd barhaus hirdymor tuag at newid, yn hytrach na bodloni ar ateb hwylus.

Mae Sparc bob amser yn gosod ei waith mewn cyd-destun rhyngwladol, ac mae pobl ifanc a staff o'r prosiect wedi ymweld â Botswana, Gwlad yr Iorddonen, Sbaen, Catalwnia ac yn fwy diweddar De Affrica, Gwlad Pwyl, Hwngari, Seland Newydd, Hong Kong a'r Almaen.

Mae'r bobl ifanc, oedolion hŷn a staff wedi cwrdd â phobl ifanc o gymunedau eraill difreintiedig ym maestrefi De Affrica, gwersylloedd ffoaduriaid yn Georgia, a phlant y stryd o Wlad Pwyl. Yn fwyaf diweddar, drwy ein prosiect 'Mind the Gap', bu artistiaid addawol o Sparc yn cyfnewid lle gydag artistiaid sy'n dod i'r amlwg o Luebeck yn yr Almaen, gan weithio mewn cymunedau ôl-ddiwydiannol i rannu ymarfer a dysgu ar y cyd.

Mae ein Hartist Preswyl yn rhedeg gofod oriel cwbl gynhwysol i greu cyfleoedd ar gyfer gwaith gydag artistiaid LHDTG+ ac artistiaid niwroamrywiol, ac mae'n parhau i gefnogi artistiaid lleol o gefndiroedd dosbarth gweithiol ac economaidd-gymdeithasol is. Drwy gysylltiad agos â'r Rhaglen Cyfeillion Artes Mundi, mae'n gweithio i alluogi artistiaid rhyngwladol i weithio gyda phobl leol yn y Cymoedd, ac mae hefyd yn cefnogi ein chyfranogwyr i ymweld â gofodau oriel proffil uchel lle gallant gymryd rhan a gweithio gydag artistiaid o'r mwyafrif byd-eang. Bu hyn yn brofiad dysgu anferth i'n hoedolion hŷn a'n cymunedau.

Mae'r cyfleoedd a drefnwyd drwy berthnasoddd gyda sefydliadau eraill yn cael effaith fawr ar gyfranogwyr y grŵp celfyddydol. Bu cwrdd a gweithio gyda grwpiau amrywiol o bobl trwy ymweld ag arddangosfeydd a mynychu gweithdai yn brofiad dysgu gwerthfawr i'n hoedolion hŷn a'n cymunedau. Mae'n dod â'r byd ehangach i mewn i Gymoedd y Rhondda, gan roi cyfle i ddysgu am y gwahanol *genres* yn y byd celf, ac arwain at drafodaethau o gwmpas gwaith unigryw artistiaid o'r mwyafrif byd-eang.

Yn achos pobl ifanc yn Sparc, mae'r gwaith rhyngwladol a chenedlaethol hwn wedi effeithio mewn modd radical ar bob agwedd ar eu bywydau, gan newid eu persbectif ar dlodi, eu harferion bwyta, a'u barn am y byd. Esboniodd un rhiant y newid agwedd hwn ar ôl i'w merch ymweld â Gwlad Pwyl:

"Cyn hyn roedd hi mor ffysi, ac yn gwirio'r dyddiad ar bopeth . . . [ar ôl bod yng Ngwlad Pwyl] byddai'n dod adre a dweud, 'popeth yn iawn, does gen i ddim problem gyda hwnna'. Mae hi wedi newid cymaint, mae'n grêt."

(Ballin, 2019)

Mae hyn yn ei dro yn ein helpu i feithrin amgylchedd agored a chefnogol, lle y mae pobl ifanc yn llawer mwy tebygol o dderbyn pobl ifanc o gefndiroedd a diwylliannau'r mwyafrif byd-eang oherwydd y profiadau a gawsant.

Drwy gyfrwng ein partneriaeth Yn Gryfach Ynghyd gyda Chanolfan Mileniwm Cymru, mae'r bobl ifanc wedi creu cysylltiad â grŵp amrywiol o bobl ifanc o ardaloedd Glan-yr-afon, Tre-biwt a'r Tyllgoed, gan wneud a chreu gwaith gyda'i gilydd. Mae'r bartneriaeth hefyd yn ein galluogi i weithio gydag artistiaid Du megis Tumi Williams, Tia Zakura, a Lily Webbe.

Dull ar sail Anghenion

VALLEYSKIDS.ORG



Mae natur rhaglen gelfyddydol Plant y Cymoedd yn golygu ein bod yn adeiladu perthnasoedd hirdymor parhaol, ac rydym yn annog awyrgylch sy'n anfeirniadol a chefnogol. Ym mhob agwedd ar ein gwaith, mae cyfranogwyr, rhieni, addysgwyr a gweithwyr iechyd yn tynnu sylw at hyn dro ar ôl tro. Rydym yn gwerthuso'n barhaus sut i wella mynediad a chynhwysiant, ac yn ymdrechu i gynnwys cyfranogwyr a chynulleidfaoedd o bob cefndir yn ein hymarfer artistig.

Yn Sparc, rydym yn gweithio ar gyflymder ac ar gais y bobl ifanc, ac yn datblygu ein gwaith yn unol â hynny. Er enghraifft, yn y modd hwn, mae Flight Wings wedi datblygu mewn modd organig i ffurfio grŵp integredig a fynychir gan nifer digyffelyb o bobl ifanc anabl.

Bu'r Artist Preswyl yn gweithio mewn cymunedau lleol ers blynnyddoedd lawer, gan ddatblygu perthnasoedd hirsefydlog gyda grwpiau unigol. Mae creu gofod cynhwysol ar gyfer oedolion o bob oedran, cefndir a gallu yn sicrhau bod pawb yn teimlo bod croeso iddynt ymuno â'r grwpiau celf ar unrhyw adeg; cânt bob amser eu hannog i ddychwelyd, hyd yn oed ar ôl bod yn absennol am amser hir. Mae oedran y rhai sy'n cymryd rhan yn y grŵp celf yn amrywio o 21 i 94. Trwy sicrhau bod pob sesiwn yn gynhwysol, rhoddir sylw i anghenion unigol y cyfranogwyr hynny sydd angen cymorth ychwanegol i fod yn greadigol.

Mae'r Artist Preswyl yn gweithio mewn amryw o gyfryngau gwahanol, gan adeiladu ar ei blynnyddoedd o brofiad; mae'n cyflwyno technegau a deunyddiau newydd ar gyfer y rhai sy'n mynychu'r sesiynau, gan roi cyfle iddynt roi cynnig ar rywbeth newydd mewn amgylchedd anfeirniadol. Mae'r deunyddiau'n cael eu darparu fel nad yw'r gost yn rhwystro'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is rhag cymryd rhan.

Bu sawl aelod o'r grŵp celf yn mynychu'r dosbarthiadau ers degawd a mwy. Does dim pwysau i fynychu sesiynau, ac mae rhai'n galw i mewn o bryd i'w gilydd dros y blynnyddoedd oherwydd problemau personol a theuluol, a chyfnodau o salwch yn aml. Trefnir y sesiynau i roi sicrwydd i bobl bod y drysau wastad ar agor pe baent yn dymuno ailymuno â'r dosbarthiadau ar adeg sy'n gyfleus iddynt. Caiff grwpiau negeseuon hefyd eu creu fel bod unigolion yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf; maent yn rhydd i ymateb, neu ddarllen y negeseuon yn unig, yn ôl eu dymuniad.

Yn Sparc, mae ein gwaith yn cael ei ddatblygu a'i greu gan y bobl ifanc, ac mae'n gwbl ymatebol iddynt. Ambell dro, mae hyn yn golygu bod angen i'r gwaith fod wedi'i dargedu, ac yn hynod benodol. Er enghraifft, mae ein grŵp ysgrifennu creadigol, Pencil Breakers, yn disgrifio ei hun fel grŵp cwiar, anabl, gweithredol; yma, mae croestoriadedd yn bwysig.

Mae rhai o'r cyfranogwyr yn dioddef o gyflyrau iechyd cronig, sy'n golygu eu bod yn gweithio'n bennaf ar-lein ac mewn dull hynod unigol. Yn achos llawer o'r rhai sy'n cyfranogi yn Flight Wings a Pencil Breakers, hwn yw'r unig amser lle y gallant gysylltu â phobl y tu allan i'r teulu.

Y sylw personol hwn sy'n galluogi pobl ifanc a chanddynt nodweddion gwarchodedig i deimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth, ac i gymryd yr arweiniad mewn datblygu ymarfer sy'n ateb eu hanghenion hwy. Dyrennir ein hadnoddau ni mewn modd sy'n cefnogi hyn mewn dull integredig.

Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n aml yn arddangos ymddygiad hynod heriol o ganlyniad i'w hanabledd penodol, problemau iechyd meddwl, neu amgylchiadau teuluol. Yn aml, mae'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda hwy wedi cael eu heithrio o ddarpariaethau eraill, ac mae'r rhieni wedi cael eu troi i ffwrdd gan sefydliadau nad ydynt yn teimlo eu bod yn gallu cwrdd ag anghenion eu plantyn. *"Dwi'n teimlo'n gyfforddus wrth ei adael yma a cherdded i ffwrdd gan wybod bod rhywun yn gofalu amdano. Gyda chwmnïau eraill fyddwn i byth bythoedd yn gwneud hynny, na fyddwn wir."* Mae hi'n disgrifio'r effaith ar ei phlantyn, *"Mae wedi bod yn fodd i fyw iddo fe, dyna'r gwir."*

Ar reng flaen y gwaith, mae nifer cynyddol o'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda hwy bellach wedi cael datganiad o ADHD neu syndrom Asperger ac yn nodi eu bod yn niwroamrywiol. Mae llawer ohonynt yn dioddef o straen, pryder ac iselder. Mae gan rai o'n pobl ifanc brofiad o fod mewn gofal, neu o fod yn ofalwyr ifanc; mae dod atom ni yn eu galluogi i ganolbwyntio arnynt hwy eu hunain yn hytrach na chael eu labelu â chyflyrau neu broblemau cymdeithasol ac ymddygiadol. Yn ystod y pandemig, roedd nifer cynyddol o bobl ifanc naill ai wedi ceisio cyflawni hunanladdiad, neu wedi cael profiad uniongyrchol o hynny yn eu teuluoedd. Mae rhai o'r plant hyn dan 10 oed - mae'r gwaith yn heriol a phwysig. Yn gynyddol, mae'r plant ifanc hyn yn cael trafferth mynd i'r ysgol, sy'n peri pwysau ychwanegol ar gyfer rhieni ac mae'n creu gwrthdaro a gorbryder. Cynigir cymorth ychwanegol i bobl ifanc a theuluoedd sy'n mynychu sesiynau Sparc drwy ein rhaglen fentora, weithiau i gael lleoliadau coleg cynnar i bobl ifanc neu i gefnogi addysgu gartref.

Rydym yn deall bod angen cefnogaeth ar bobl ifanc i fynychu ein gwaith, ac mai ni sy'n gorfod bod yn hyblyg a newid os oes angen er mwyn cwrdd â'u hanghenion hwy. Mae Plant y Cymoedd, dan arweiniad ein Tîm Teulu, yn symud tuag at dderbyn achrediad fel sefydliad sy'n ystyriol o drawma. Mae'r tîm hefyd wedi darparu hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma i'n partneriaid Gwnewch e! a Chanolfan Mileniwm Cymru, sy'n codi ymwybyddiaeth o effaith trawma, a sut y gallwn wneud ein canolfannau a'n grwpiau'n hygyrch a chefnogol.

Mae tlodi teuluoedd ac unigolion yn parhau i dyfu bob blwyddyn yn sgil yr heriau o ran y cynnydd mewn costau byw a thanwydd. Fel sefydliad, rydym yn parhau i flaenoriaethu diogeledd bywd. Bellach mae gennym ganolfannau cynnes, gwaith ar y cyd â'r Co-operative a busnesau lleol, a chysylltiadau cryf â banciau bywd i gefnogi ein teuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Mae tlodi digidol yn broblem fawr yn y Cymoedd. Mae Sparc wedi sicrhau cyllid pellach ar gyfer gliniaduron a chardiau Rhyngrwyd i alluogi pobl ifanc i gael mynediad at y celfyddydau mewn gofod digidol. Roedd rôl ein Gweithiwr Celf Ddigidol blaenorol yn hollbwysig wrth drefnu'r trosglwyddiad hwn. Eleni, rydym wedi gallu cyflwyno mwy o waith wyneb yn wyneb, ond rydym yn parhau i ddatblygu darpariaeth ar-lein ar gyfer y rhai sydd angen hynny.

"Mae'r gofod hwn yn bwysig iawn, nid yn unig i mi, ond i bawb. Mae'n rhoi cyfleoedd i ni allu siarad gyda phobl, yn enwedig rhai sy'n dioddef o or-bryder, iselder neu anableddau – mae'n ein cadw'n gall ac yn cadw ein teimladau'n gyflawn ac yn dwym – mae'n rhoi lle i ni dyfu fel unigolyn."

Fel yn achos to iau Plant y Cymoedd, mae'r oedolion hŷn hefyd yn brwydro gydag afiechydon, rhai ohonynt yn gronig. Mae hyn yn golygu na allant bob amser fynychu sesiynau'n rheolaidd. Gan fod y sesiynau hyn yn aml yn achubiaeth iddynt hwy, gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i ffyrdd fydd yn eu galluogi i barhau i gymryd rhan.

Fel y dywedodd un o'r cyfranogwyr, sy'n 94 mlwydd oed: *"Hwn yw'r unig amser dwi'n cael cyfle i fynd mas, heblaw pan fydd fy mab yn mynd â fi i weld y meddyg. Sa i'n gwybod beth fyddwn i'n wneud heb y grŵp celf; dwi'n gwrandao ar yr holl bethau creadigol mae pobl yn ei wneud, a chydha help gan Anne a phawb arall, dwi'n llwyddo i greu fy nghelf fy hun. Mae'n anodd credu bod fy ngwaith wedi ymddangos mewn tair arddangosfa eleni . . . pwy fyddai'n credu'r fath beth!"*

I rai, dyma'r unig amser yn yr wythnos y byddant yn gadael eu cartref; mae'r cyfle am sgwrs ag eraill y maent bellach yn eu galw'n ffrindiau, a bod yn greadigol, yn werth y byd iddynt. Mae un cyfranogwr, sy'n wraig weddw ers blyneddau lawer, ac yn dioddef o ddiffyg hyder, a'i theulu'n byw yn bell i ffwrdd, yn aml yn ein hatgoffa, heb y grŵp celf i'w fynychu, y byddai wedi ei hynysu'n llwyr.

Drwy gyllid ychwanegol, mae defnyddio iPad yn galluogi'r rhai mwyaf ynysig yn gymdeithasol i gymryd rhan pan nad oedd modd iddynt adael y tŷ. Os yw'r cyfranogwyr yn teimlo'n ddigon da, rydym yn eu

VALLEYSKIDS.ORG



cysylltu hwy â'r sesiwn drwy iPad i gael 'dishgled o bell' fel bod modd iddynt weld beth mae pawb wedi bod yn ei wneud, a chymryd rhan yn eu sgysiau. Yn aml, ymwelir â chartrefi i ddarparu deunyddiau celf a chasglu gwaith, a chadw llygad ar lesiant cyffredinol y cyfranogwyr. Ambell dro, mae gweld wyneb cyfarwydd wrth y drws yn ddigon i 'wneud gwahaniaeth' i rywun fyddai, fel arall, yn cael diwrnod unig.

Mae Sparc a'r Artist Preswyl hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n gweithwyr ieuenctid a chwarae; gallwn gynnig cefnogaeth ychwanegol mewn sesiynau lle bo angen. Nid yw hyn erioed wedi cael ei gynnwys yn benodol yn y cyllid a dderbyniwn gan Gyngor y Celfyddydau; mae'n ymrwymiad a gynigir gan Blant y Cymoedd i sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu cynnwys yn y gwaith celf ieuenctid os ydynt yn dymuno cymryd rhan.

Datblygu Cynulleidfa

Trwy amrywio ein gwaith marchnata, ac ymgysylltu â rhagor o bartneriaid, rydym wedi gweld cynulleidfa sylfaenol sy'n llawer mwy amrywiol. Mae hyn o fudd i'r bobl ifanc, ac rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n mynychu sioeau a rhannu'r profiad o fynd i'r theatr. Aethom ati'n fwriadol i adeiladu ein haelodaeth o bobl ifanc, a chynnal sesiynau ymgynghori chwarterol a dyddiau ymarfer gyda hwy, lle rydym yn datblygu ein rhaglen ar y cyd. Gyda chefnogaeth Canolfan Mileniwm Cymru, roedd modd i ni hefyd gynnig prisiau tocynnau cymunedol, gan gynnwys cost trafnidiaeth, gan wneud ymweld â'r Ganolfan yn brofiad hygyrch. *"Y foment fwyaf cofiadwy i mi oedd cael y cyfle hwn, sef y tro cyntaf erioed i mi fynd i Gaerdydd. Diolch yn fawr am fy nghael i yma i berfformio."*

Anogir artistiaid o wahanol gefndiroedd a disgyblaethau ethnig a diwylliannol i arddangos yn oriel Celf yn yr Atig, gan alluogi'r Artist Preswyl i greu amrywiaeth eclecticig o arddangosfeydd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Caiff artistiaid sy'n arddangos eu gwaith eu hannog i'w rannu gyda'r grwpiau celf, a siarad am eu prosesau a'r cefndir i thema'r gwaith. Mae hyn yn amhrisiadwy i aelodau'r grŵp celf gan eu bod yn teimlo'n ddigon hyderus i ofyn cwestiynau am y gwaith yn yr hyn y maent yn ei ystyried yn 'ofod iddynt hwy'. Yn dilyn hynny, darperir gweithdai sy'n ymateb i'r celf sy'n cael ei arddangos. Yn eu hadborth, mae'r artistiaid hefyd yn disgrifio hyn fel cyfle pwysig ar gyfer eu datblygiad personol.

"Fyddwn i byth wedi teimlo'n ddigon hyderus i siarad gydag artist, pe bawn i'n ddigon ffodus i gwrdd â hwy, ond ar ôl ein sesiynau 'sgwrsio ag artist' a'r gweithdai gyda'r grŵp celf, rwyf bellach yn ddigon parod i holi cwestiynau ynghylch y gwaith."

Byddwn yn rhoi pwyslais ar waith sy'n addas ar gyfer teuluoedd, ac yn parhau i ddatblygu ein cynulleidfaoedd 16+.

Rhif El
Gwella Mynediad

VALLEYSKIDS.ORG



Mae pob adeilad lle y mae Sparc yn gweithio yn hygyrch i deuluoedd a chyfranogwyr anabl gael mynediad i berfformio neu i wyllo digwyddiadau. Rydym hefyd yn darparu sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein ar gyfer pobl ifanc.

Yn ein Gweithdai Drama, rydym yn ymgysylltu â nifer cynyddol o blant sy'n niwroamrywiol neu sydd ag ADHD. Rydym yn cynnal sesiynau drama wedi eu teilwra'n arbennig fel elfen graidd o'r rhaglen. Eleni, roedd yn bleser croesawu Theatr y Sherman yn ôl ar gyfer perfformiad cymunedol i deuluoedd, y gwerthwyd pob tocyn ar ei gyfer.

Darperir sesiynau Celf Weledol mewn adeiladau sy'n hygyrch i bobl a chanddynt broblemau symudedd, yn enwedig y rhai a chanddynt anableddau mwy difrifol. Ar adegau pan fyddant yn teimlo nad oes modd iddynt fod yn bresennol, defnyddir iPad er mwyn eu cynnwys a sicrhau eu bod yn parhau i allu cymryd rhan yn y sesiwn grŵp o gysur eu cartref.

Yn y Ffatri, lleolir oriel Celf yn yr Atig yng ngofod atig yr adeilad. Gan fod hwn yn hen adeilad, roedd y mynediad at y lefelau swyddfa a gofod yr oriel yn gyfyngedig. Buddsoddwyd mewn lifft grisiau fel bod modd i rai a chanddynt broblemau symudedd ymweld â gofod yr oriel.

Rydym yn ymgynghori â'n cyfranogwyr anabl wrth drafod sut i osod arddangosfeydd, ac rydym yn annog artistiaid i gymryd gofal wrth ddewis safle ar gyfer eu gwaith, os yw'n cael ei osod ar y llawr.

Ar gyfer digwyddiadau arddangos preifat, rydym yn ymgynghori gyda'r artist ac, os gwyddant am unrhyw ymwelwyr i'w harddangosfeydd a allai fod ag anghenion mynediad, neu y byddai'n well ganddynt aros ar y llawr gwaelod, gellir gosod llif byw o'r oriel drwy gyswllt fideo sy'n galluogi pobl i weld yr arddangosfa ar sgrin fawr ar y llawr gwaelod.

Gyda chaniatâd, ar gyfer pobl na allant ddringo'r grisiau, caiff darnau celf eu tynnu o'r casgliad o waith sy'n cael ei arddangos.

Byddwn yn parhau i ddatblygu rhaglen sy'n cefnogi pobl anabl ifanc a hŷn, a'u teuluoedd, i ymgysylltu â'n gwaith.

Gwell Cyfranogiad

Ers i ni fynd yn ôl at waith wyneb yn wyneb, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n cymryd rhan yn ein holl sesiynau rheolaidd a'n gweithdy drama, a gwelwyd cynnydd mawr yn nifer yr aelodau

VALLEYSKIDS.ORG



sy'n 12 oed neu'n hŷn. Ar hyn o bryd, rydym yn cael trafferth ymdopi â'r galw sydd am ein hadnoddau. Rydym wedi cael cynulleidfaoedd niferus ar gyfer ein digwyddiadau a'n perfformiadau, ac mae'r gwaith uchel ei broffil yng Nghanolfan Mileniwm Cymru wedi denu cynulleidfaoedd newydd a hefyd wedi annog cynulleidfaoedd y Cymoedd i fentro i Gaerdydd. Trwy ein gwaith gyda Gwnewch e!, rydym wedi ymgysylltu â rhagor o bartneriaid strategol a hefyd wedi tyfu ein sylfaen o Aelodau Cyswllt Sparc a gweithwyr llawrydd i ymestyn ein gwaith.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at gynydd mewn cyfranogiad ac amrywiaeth.

Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

Gyda datblygiad ein gwefan Plant y Cymoedd hyfryd, sy'n ategu gwefan bwrpasol Sparc, mae gennym ymgyrchoedd llawer mwy datblygedig ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol, ac mae mwy o bobl nag o'r blaen wedi dod yn ymwybodol o'n gwaith ac o lwyddiant parhaus ein prosiectau celf. Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Plant y Cymoedd bellach yn ddwyieithog, sy'n caniatáu i ni gyflwyno negeseuon mwy cyson am ein gwaith ac ymestyn ein cyrhaeddiad.

Mae Cynllun Celfyddydol Plant y Cymoedd yn parhau i ddatblygu strategaeth gyfathrebu a strategaeth cyfryngau cymdeithasol. Dros gyfnod o 4 blynedd, gwnaeth ein Gweithiwr Celfyddydau Digidol llawn amser uwch-sgilio'r tîm gan ein galluogi i greu cylchlythyron, blogiau a fideos, a datblygu adnoddau ar-lein o ansawdd uchel.

Rydym wedi gwneud defnydd helaeth o'n safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol i hyrwyddo ein gwaith ac i gydgyssylltu adborth a gafwyd gan y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ein gweithdai. Mae ein digwyddiadau wedi cael sylw yn y wasg yn genedlaethol ac yn lleol, ac ar raglenni radio a theledu yn Gymraeg a Saesneg, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ein gwaith yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Rydym wedi meithrin partneriaethau ag Admiral Insurance ac Ysgol Fusnes Manceinion, sydd wedi ein cefnogi i ddatblygu ein strategaeth farchnata ar gyfer Plant y Cymoedd, gan gynorthwyo â llunio cylchlythyr rheolaidd sy'n adlewyrchu gwaith yr holl sefydliad.

Byddwn yn parhau i gynyddu'r ymgysylltiad â'r cyhoedd, gan weithio gyda'r wasg leol a thrwy ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, a manteisio ar brif frand Plant y Cymoedd yn ogystal â brand pwrpasol Sparc a Celf yn yr Atig. Bydd ein pobl ifanc yn cael eu hannog i greu a llunio cynnwys.

Mae'r cysylltiadau agos sydd gennym gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, a sefydliadau eraill, wedi ein galluogi i hyrwyddo ein gwaith ar lefel strategol. Mae'r diweddar Archesgob Desmond Tutu, Lynne Neagle (Gweinidog Addysg), Emma Wools (Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu), Chris Bryant (Aelod Seneddol dros y Rhondda), Peter Swinburne (Cadeirydd Canolfan Mileniwm Cymru), Graeme Farrow (Cyfarwyddwr Artistig CMC), Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, 15 o bartneriaid ar draws Rhondda Cynon Taf, a phartneriaid rhyngwladol o Luebeck, Yr Almaen, drwy ein prosiect Mind the Gap sy'n cefnogi artistiaid sy'n dod i'r amlwg, i gyd wedi rhoi cefnogaeth i'n gwaith. Cawsom ein henwebu'n ddiweddar gan y Kings Trust fel un o dair elusen yn Rhondda Cynon Taf i weithio ochr yn ochr â phartneriaid busnes lleol a chenedlaethol. Eu rôl yw datblygu cynllun gweithredu o gefnogaeth i'r sefydliad; mae hyn yn hwyluso lleoliadau gwaith ar gyfer pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig na fyddai'n cael y cyfle o bosibl fel arall.

Byddwn yn parhau i ddenu pobl ddylanwadol at ein gwaith er mwyn datblygu ein proffil yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Gwaith Prosiect a Gynlluniwyd ar Gyfer 2025 - 2025

CEFNOGI POBL A CHANDDYNT NODWEDDION GWARCHODEDIG

Canlyniad a fwriedir: Datblygu ein gwaith creadigol i helpu pobl o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol, grwpiau economaidd-gymdeithasol isel, LHDTC+, niwroamrywiol a phobl o liw i ddweud eu storïau eu hunain.

Gweithio gyda Chyfranogwyr Anabl

Flight Wings 16+: Gweithio gyda Chyfranogwyr Anabl a Niwrowahanol

Aelodau Flight Wings yw rhai o'r oedolion ifanc mwyaf bregus rydym yn gweithio gyda hwy ar hyn o bryd, ac mae gan nifer o'r grŵp anabledau. Yn achos y rhan fwyaf ohonynt, yr unig adeg lle y cânt gyfle i siarad â phobl y tu hwnt i'w teuluoedd yw yn ystod y sesiynau drama. Mae'r sesiynau wedi arwain at sgysiau dwfn ac ystyrlon, ac wedi eu galluogi i siarad am eu pryderon, gan roi llwyfan i ni gynnig cefnogaeth sydd ei hangen yn fawr. Mae digwyddiad yn yr haf i'r grŵp yn hanfodol. Eleni, byddant yn gallu dychwelyd ar gyfer taith breswyl i'n Canolfan ym Mhenrhyn Gŵyr. I rai yn y grŵp, dyma'r unig adeg pan fyddant yn aros i ffwrdd oddi wrth y teulu – felly mae angen cynllunio'n ofalus.

VALLEYSKIDS.ORG



Mae'r grŵp hwn yn hynod o greadigol ac yn arbenigwyr ar wneud gwaith byrfyfyr a llunio gwaith newydd. Maent yn gweithio ar hyn o bryd ar eu fersiwn eu hunain o Twelfth Night, gyda chefnogaeth Dylan Price sy'n ail-lunio'r sgript gyda nhw. Maent wrth eu bodd â'r castio rhwng y rhywiau a'r cynllwynio sy'n rhan o'r stori; maent wedi'u denu gan yr hiwmor, yn naturiol. Mae perfformio o flaen cynulleidfa'n her ac, yn enwedig ar gyfer yr aelodau niwroamrywiol o'r grŵp, mae angen trin unrhyw beth newydd â sensitifrwydd a gofal. Rydym wedi gweithio drwy'r ffilm, a byddwn yn rhoi tro ar y deunydd newydd hwn gyda chynulleidfa fach a wahoddwyd.

Targed:

- 30 sesiwn
- 1 digwyddiad preswyl
- 1 perfformiad ffilm
- 1 taith

Adeiladu a Datblygu Theatrau Ieuenctid Cynhwysol

Mae ein Theatrau Ieuenctid yn cynnwys cyfran uchel o gyfranogwyr o gefndiroedd difreintiedig, rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal, rhai sy'n niwroamrywiol, ac eraill sy'n anabl. Mae pobl ifanc sy'n byw mewn tldi yn profi heriau cynyddol. Mae cyfranogwyr 16+ yn aml yn byw ar wahân i'w rhieni neu'n byw ar soffas, gan frwydro oherwydd diffyg bwyd a diffyg mynediad at gynnyrch hylendid sylfaenol, ynghyd ag ychydig neu ddim mynediad at drafnidiaeth. I sicrhau bod ein sesiynau'n aros yn hygyrch, rydym wedi darparu prydau syml, mynediad at ddiaroglyddion/gel cawod ac yn eu cynorthwyo â thrafnidiaeth.

Trwy greu gofod hynod gynhwysol lle y mae pobl ifanc yn arwain, cydweithredu, a chynllunio eu gwaith a'u cynrychiadau eu hunain, ac yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol sydd wedi derbyn hyfforddiant o'r radd flaenaf, ein profiad ni yw ein bod yn denu cyfran uchel o bobl ifanc o gefndiroedd amrywiol a chynyddol groestoriadol. Mae llawer o'n gyfranogwyr yn nodi eu bod yn unigolion cwiwr ac anabl.

Rydym yn cynnal dyddiau ymgynghorol ymarferol pob chwarter i roi cymorth pellach i'r bobl ifanc greu strwythurau a phrofiadau a fydd yn cefnogi eu gwaith. Yma, maent yn cael cyfle i lywio cyfeiriad y rhaglen a chyflwyno mewnbwn i'r broses. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael effaith, yn datblygu hyder ac yn cael cyfleoedd arweinyddiaeth.

Rydym yn cynnig sesiynau cymorth mentora rheolaidd i gyfranogwyr 16+, sy'n cynorthwyo â materion personol, cyngor gyrfaol, ysgrifennu CV, a thechnegau cyfweld, gan eu cyfeirio i sesiynau cwnsela yn ein hadeilad lle y mae eu hangen, neu i wasanaethau perthnasol eraill.

Eleni, rydym yn gweithio ar y cyd gyda Theatr y Sherman, i ddatblygu cwrs ysgrifennu drama ar gyfer cyfranogwyr 16+, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu eu syniadau a gweithio ochr yn ochr ag actorion ac ysgrifennwyr o gefndiroedd diwylliannol gwahanol. Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant drwy Radio Platform.

Targed:

250 o sesiynau mentora

2 fforwm / grŵp 16+

2 ddigwyddiad gweithwyr cyswllt Sparc

30 o sesiynau un i un gyda Gweithwyr Cyswllt Sparc

Gweithio gyda Chyfranogwyr LHDTC+

Gweithio gyda'r Artist Arweiniol, Bethan Marlow

Mae Sparc bob amser wedi sicrhau ein bod yn creu amgylchedd agored, cynhwysol, diogel a chefnogol ar gyfer cyfranogwyr LHDTC+. Yn aml, dyma'r unig leoliad lle y gall pobl ifanc drafod materion sy'n berthnasol i'w rhywioldeb, a rhai o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu. Rydym hefyd yn annog amgylchedd sy'n dathlu gwahaniaeth a digwyddiadau a materion LHDTC+.

Bu Bethan Marlow, sy'n eiriolwr dros y gymuned gelfyddydol LHDTC+, yn Aelod Cyswllt ar gyfer Sparc ac yn gydweithredwr ers amser maith, a hi sy'n arwain ar y gwaith hwn. Ers 2020, mae Bethan wedi goruchwyllo'r prosiect Pencil Breakers, sy'n etifeddiaeth barhaus o'n comisiwn 'Ymyriadau Pwerus' gyda Chanolfan Mileniwm Cymru lle'r oedd hi'n gyfrifol am sefydlu'r grŵp fel yr Artist Arweiniol. Mae'r grŵp yn eu disgrifio ei hunan fel casgliad o ysgrifenyddwyr cwiar, anabl a gweithredol, ac maent yn dewis ysgrifennu'n ddienw. Mae'r grŵp yn mynychu sesiynau wythnosol ar-lein; gan fod rhai o'r artistiaid yn dioddef o flinder cronig, fel ein bod yn gweithio ar gyflymder sy'n addas i bawb a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn hynod gynhwysol.

Perfformiwyd gwaith Pencil Breakers sy'n rhoi proffil i leisiau Cwiar, Anabl a Gweithredol, yn yr Eisteddfod am y tro cyntaf. Dan gyfarwyddiaeth Bethan Marlow, perfformiodd Menna Rogers, artist niwrowahanol proffesiynol, ochr yn ochr â Deborah Newton-Williams, eu darnau creadigol yn y babel Paned o Gê. Ar ôl y sesiwn, cynhaliodd ein haelod traws, anabl, mwyaf hirsefydlog sesiwn holi ac ateb am y gwaith.

Sgwennu Radical

Roedd hwn yn ymyriad llwyddiannus. Sbardunodd sgwrs ddyfnach â'r cyfranogwyr a'r artistiaid a gymerodd ran yn yr Eisteddfod am yr angen am wagle ar gyfer ysgrifenyddwyr yn Rhondda Cynon Taf sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ysgrifennu yn Gymraeg. Mae hyn wedi cynhyrchu prosiect newydd, dan arweiniad Bethan Marlow; mae Sgwennu Radical yn galluogi safbwyntiau i ddod i'r amlwg gan ysgrifenyddwyr cwiar, anabl, niwroamrywiol, gweithredol, a Chymraeg.

Yr iteriad cyntaf oedd gwaith ar y cyd gyda Mess up the Mess a Queertawe yn Abertawe. Cawsom wahoddiad i gyfrannu at eu Gŵyl a chyflwyno 'Whispering Tea Cups', sef gosodwaith yn cynnwys darnau byr yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog. Gwahoddwyd aelodau'r gynulleidfa i ymuno â the parti, lle gallent afael mewn cwpanau te a gwrando ar ddarnau a ddisgrifiwyd ar sail 'ansawdd y te', boed yn fyglyd ac aromatig neu'n gryf a sawrus. Mae sesiynau wythnosol Pencil Breakers bob tro'n ddwyieithog ond mae'r cyfle i gynnal sesiynau ychwanegol yn Gymraeg yn unig wedi caniatáu i leisiau newydd ddod i'r amlwg.

VALLEYSKIDS.ORG



Allbwn: Datblygu gwaith Sgwennu Radical gydag Artistiaid Cwiar, Anabl a Gweithredol i wella a datblygu eu gwaith a rhannu gyda chynulleidfaoedd gan gryfhau eu llais a'u talent greadigol.

Targed:

28 sesiwn

100 o gyfranogwyr

1 noson berfformio 'Scratch' - yn cynnwys lleisiau cwiar, anabl a gweithredol.

4 digwyddiad – i broffilio a chryfhau lleisiau'r grŵp hwn.

Cydweithio â Chyfranogwyr o'r Mwyafrif Byd-eang

Partneriaeth Yn Gryfach Ynghyd gyda Chanolfan Mileniwm Cymru

Rydym bellach yn ein seithfed flwyddyn o'r bartneriaeth Yn Gryfach Ynghyd. Eleni, yn dilyn ymgynghoriad trylwyr dan arweiniad Emma Evans, y Pennaeth Profiadau Creadigol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, aethom ati i ail-ddychmygu a chanolbwyntio ar y meysydd allweddol lle gallwn gefnogi ein gilydd yn y ffordd orau, a lle y mae ein gwaith yn croestorri.

Rydym yn cydnabod mai ein hethos ar y cyd sy'n sail i'r gwaith gyda phobl ifanc sydd wrth galon y bartneriaeth hon, ac mai ein prif awydd yw cryfhau cynwysoldeb ac amrywiaeth ar bob lefel o'n gwaith. Mae hyn yn cynnwys trefnu cyfarfodydd tymhorol ar y cyd rhwng ein timau lle y gallwn siapia a datblygu prosiectau ar y cyd, a rhannu'r hyn a ddysgir ganddynt. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y modd y gallwn barhau i ddwyn pobl ifanc o wahanol gefndiroedd o ran hil a diwylliant ynghyd, fel bod modd iddynt ddysgu ac archwilio mewn amgylchedd ffafriol.

Radio Platfform

Mae Radio Platfform, sy'n rhan o'r bartneriaeth Yn Gryfach Ynghyd gyda Chanolfan Mileniwm Cymru, yn parhau i ffynnu a datblygu. Mae'r orsaf yn cael ei rhedeg gan bobl ifanc ac eleni gwnaethom ennill medal arian yn y digwyddiad gwobrwyo Arias clodwiw. Ceir cydnabyddiaeth a rennir bod angen dull gwahanol ar gyfer gorsaf Porth o gymharu â'r Ganolfan yng Nghaerdydd, yn enwedig oherwydd bod cyfran uchel o'r bobl ifanc sy'n ei fynychu yn niwrowahanol ac ag anableddau dysgu. Rydym yn cyflogi gweithiwr cymorth ychwanegol sydd bob tro ar gael ar gyfer cymorth un i un ac ar gyfer ateb anghenion y grŵp. Eleni, am y tro cyntaf, mae gennym Gydgyssylltydd traws newydd bendigedig sy'n lleol i Ronda Cynon Taf.

Allbwn: Dylanwadu ar sut y mae sefydliadau cenedlaethol fel y National Gallery, Canolfan Mileniwm Cymru, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru ac Artes Mundi yn gweithio gyda chymunedau a phobl ifanc.

Targed:

- 4 diwrnod tîm creadigol ar y cyd
- 4 cyfarfod gweithredol gyda chynrychiolaeth gan bobl ifanc
- 3 diwrnod ymgynghori â phobl ifanc
- 1 digwyddiad preswyl i bobl ifanc gyda'r grŵp ieuenctid

VALLEYSKIDS.ORG



- 1 diwrnod hyfforddi i rannu ymarfer ag asiantaethau allanol

Allbwn: Digwyddiadau preswyl a gweithdai i archwilio themâu sy'n croestorri, i ddysgu oddi wrth ddull celf ei gilydd ac i rannu storïau a phrofiadau rhwng pobl ifanc o Next Up Academy a Theatr Ieuenctid Pen-y-graig.

Targed:

- Penwythnos preswyl yn Dros Nos yng Nghanolfan y Mileniwm, i rannu gwaith creadigol.
- Digwyddiad preswyl wedi'i gynllunio yn yr haf i weithio tuag at gynhyrchiad ar y cyd ym mis Ebrill 2026 gan gynnwys Theatrau Ieuenctid Pen-yr-englyn a Phen-y-graig gydag aelodau o Next Up Academy.
- 2 ddigwyddiad ar y cyd
- 4 gweithdy ar y cyd (dan arweiniad artist sy'n dod i'r amlwg)
- 4 gweithdy blasu (dan arweiniad Artistiaid o Liw)
- 35 o gyfranogwyr

Gweithio ym Mhenrhys

Ym Mhenrhys, oherwydd bod yr ardal a'r ystâd yn newid o hyd, rydym yn gweithio fwyfwy gyda phobl ifanc o gefndiroedd y Mwyafrif Byd-eang, gan gynnwys y rheini a chanddynt brofiad o fyw fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae Kyle a Ryan Stead, sydd ill dau'n Weithwyr Cyswllt Sparc anhygoel, yn arwain ar y gwaith hwn i Sparc. Mae Kyle hefyd yn un o'r artistiaid arweiniol sy'n darparu ar Above and Beyond, sef prosiect aml-bartneriaeth dan arweiniad Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru. Mae wedi nodi'r angen am ragor o gynrychiolaeth gan Artistiaid o'r Mwyafrif Byd-eang sy'n angerddol dros y gwaith hwn, i weithio mewn partneriaeth ar y prosiect ac i gysylltu'r bobl ifanc â'r cyfleoedd sydd ar gael drwy'r bartneriaeth Yn Gryfach Ynghyd.

Allbwn: Datblygu'r bartneriaeth Above and Beyond gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a phartneriaid ym Mhenrhys ochr yn ochr ag ymyriadau ar sail drama dan arweiniad Kyle Stead, sy'n artist a anwyd ym Mhenrhys ac sy'n weithiwr cyswllt i Sparc.

Targed:

30 sesiwn

1 digwyddiad preswyl ar y cyd

2 lwyfan perfformio

2 weithdy allanol

1 digwyddiad preswyl

Gwaith Pontio'r Cenedlaethau gydag Oedolion Hŷn

Yn aml iawn, mae ysgolion a cholegau'n holi'r Artist Preswyl ynghylch lleoliadau gwaith i'w myfyrwyr. Mae hyn yn un o'r nifer o ffyrdd lle y byddwn yn dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer pobl ifanc a'r oedolion hŷn yn y grwpiau celf i weithio mewn dull sy'n pontio'r cenedlaethau.

VALLEYSKIDS.ORG



Yn ystod eu hwythnos ar leoliad gwaith, mae disgyblion ysgol yn cysgodi'r Artist Preswyl, ac yn cael eu paratoi a'u cefnogi i feddwl am syniad rhwydd ar gyfer sesiwn gelf y gellid ei ddefnyddio â'r grwpiau celf yr wythnos honno. Yn aml, mae eu syniadau yn rhywbeth nad ydym wedi ystyried ei wneud o'r blaen, a chan fod y grwpiau bob amser yn croesawu'r cyfle i roi cynnig ar rywbeth newydd, maent yn ymateb yn frwdfrydig i'r sesiynau hyn ac yn eu mwynhau.

Rydym wedi sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion lleol, a chedwir gofod ar eu cyfer bob blwyddyn i arddangos yn yr oriel. Drwy hyn, a gweithio gyda'r staff addysgu, mae gennym gyfleoedd i lunio sesiynau celf wedi eu teilwria y gall y bobl iau eu harwain.

Eleni, mae Cara Walker, artist o'r mwyafrif byd-eang, ar leoliad myfyriwr yn gweithio gyda'r grŵp o oedolion hŷn i ddatblygu portreadau, sef ei maes arbenigol.

Mae'r Artist Preswyl yn ystyried bod cydweithio'n hanfodol i'w hymarfer. Eleni, bydd yn gweithio gyda'r National Gallery fel rhan o'i dathliad 200 mlynedd, Road Trip, ochr yn ochr ag artistiaid o gefndiroedd diwylliannol gwahanol, i gynnal sesiynau gydag oedolion hŷn, plant ysgol ac aelodau o'r gymuned. Bydd yn cynnal menter ar y cyd gyda'r artist cwiar, Rhys Slade-Jones. Mae'r artist preswyl yn parhau i geisio cyfleoedd i gryfhau perthnasoedd presennol ac i weithio gydag artistiaid newydd.

Allbwn: Cyfarfodydd strategol gyda chydweithwyr allweddol i feithrin partneriaethau hirdymor i gynnal portffolio celf weledol ac ehangu'r cyfleoedd a'r ymgysylltiad â'r celfyddydau.

Target: 3 cyfarfod strategol gyda'r National Gallery, Artes Mundi 11, g39.

Allbwn: Gan adeiladu ar berthnasoedd sefydledig, bydd yr Artist Preswyl yn gweithio gydag artistiaid o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol, gyda phwyslais penodol ar weithio gydag artistiaid cwiar mewn sgysiau gyda Caitlin Flood Molyneux a Rhys Slade-Jones.

Rydym eisiau creu gwaith gydag oedolion hŷn gan ymateb i themâu a phynciau sy'n codi o gyfres o weithdai.

Targed:

- 4 gweithdy gyda 2 artist cwiar
- 25 o gyfranogwyr

Gwaith ar y Cyd gyda'r Tîm Teuluoedd a Chanolfan Soar

Mae Sparc yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Teuluoedd yn Plant y Cymoedd, a hwy sy'n arwain y ffordd i ddatblygu ymarfer cynhwysol sy'n ystyriol o drawma. Drwy ein dull o weithio ar y cyd, rydym nid yn unig wedi darparu sesiynau ar gyfer rhieni plant a phobl ifanc niwroamrywiol, ond rydym hefyd wedi cefnogi rhieni a chanddynt broblemau sylweddol yn eu bywydau (gan gynnwys ymdopi â thrais yn y cartref, bod â phlant mewn gofal, a byw mewn tldi).

Perfformiadau a Digwyddiadau Hygyrch

Mae Sparc yn darparu rhaglen o ddigwyddiadau celfyddydol fforddiadwy o ansawdd uchel ar gyfer ein pobl ifanc, teuluoedd, ac aelodau o'n cymunedau lleol; mae hyn yn cynnwys dawns, theatr, cerddoriaeth,

VALLEYSKIDS.ORG



ffilm, ac arddangosfeydd a digwyddiadau celfyddydol gweledol a chyfoes. Mae pobl ifanc yn helpu gyda phob agwedd ar gynnal y digwyddiad, gan gynnwys rhaglennu, marchnata, codi arian, croesawu, cymorth technegol, a dyletswyddau blaen y tŷ.

Rydym yn gweithio mewn cymunedau a chyda theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd hynod o ddifreintiedig yn economaidd ac sy'n profi anfanteision difrifol. Gall cael mynediad at unrhyw fath o ddarpariaeth gelfyddydol i'r teuluoedd hyn weithiau deimlo'n amhosibl. Rydym yn aml yn gweithio gyda theuluoedd mawr, ac felly gall y gost iddynt hwy fynychu digwyddiadau fod yn aruthrol. Bu Sparc yn ymgychu'n ddyfal gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a'r cynllun Noson Allan i sybsideiddio prisiau tocynnau ar gyfer ein holl ddigwyddiadau, a thrwy hynny gael gwared ar un o'r lluo o rwystrau y mae ein teuluoedd yn eu hwynebu.

Drwy ein partneriaeth Yn Gryfach Ynghyd gyda Chanolfan Mileniwm Cymru, mae pobl yn ein hybiau Cymuned a Theulu wedi gallu cael mynediad at docynnau a thrafnidiaeth am brisiau gostyngol i'w galluogi i ymweld â'r Ganolfan - a hynny am y tro cyntaf erioed yn y rhan fwyaf o achosion. Mae pobl ifanc sy'n aelodau o'r grŵp llywio hefyd wedi gweithio fel ymgynghorwyr, yn cynnig syniadau ynghylch sut y gall y Ganolfan fod yn fwy hwylus i bobl ifanc. Mae ganddynt gynrychiolaeth ar y grŵp ieuenctid, ac maent yn cefnogi datblygiad y gofodau Platfform. Mae Plant y Cymoedd yn gweithio tuag at ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o drawma achrededig sy'n arwain y ffordd o ran cefnogi mynediad i bawb at ein gwaith.

Rhwystr arall a wynebir gan ein teuluoedd yw trafndiaeth. Rydym yn aml yn rhedeg bysiau a minibysiau o gwmpas ein cymunedau i wella mynediad a chyfranogiad o fewn ein gwaith, ac i gludo pobl i'n sioeau a'n digwyddiadau. Mae hyn nid yn unig yn helpu pobl na allant fforddio cael mynediad at ein gwaith, ond mae hefyd yn helpu'r aelodau hynny lle nad yw defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn opsiwn.

Ers i Sparc symud yn ôl i'n cartref yng Nghanolfan Soar eleni, rydym wedi parhau i gydweithio i ddatblygu rhaglen gyfeillgar i deuluoedd gyda'r staff sy'n gweithio yn y gymuned leol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cynrychiadau fel 'Blaidd' gan Flossy and Boo. Yn ystod yr hydref, byddwn yn gweld Theatr y Sherman a Biwti a Brogs yn dychwelyd, a gwaith ar y cyd gyda Hijinx ac YMa ar gyfer 'Meet Fred'. Drwy greu mannau perfformio cynhwysol a hamddenol, gallwn gyflwyno rhieni a phlant i'r theatr, yn aml am y tro cyntaf.

Effaith Ddisgwyliedig Targedau i Fynd i'r Afael â Chydraddoldeb a Chynhwysiant

Isod ceir rhestr o effeithiau disgwyliedig y gwaith i annog amrywiaeth ac i feithrin cynhwysiant mewn cyfranogiad/presenoldeb.

- Rydym yn cyrraedd rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn ne Cymru ac yn eu hymgysylltu'n llwyddiannus â'r celfyddydau a chyfranogi.
- Rydym yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd trwy ymgysylltu cymunedau yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi ein gwasanaethau, yn enwedig felly yn achos y bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw.

VALLEYSKIDS.ORG



- Mae pobl ifanc a'n cymunedau yn teimlo'n hyderus i ymgysylltu â'r celfyddydau'n lleol, ac o ganlyniad maent yn hapus i fynd ar dripiâu theatr a chelfyddydol ymhellach i ffwrdd.
- Mae Sparc yn darparu ymgysylltiad cynaliadwy i gefnogi cymunedau a phobl ifanc fel bod modd iddynt gymryd rhan mewn rhaglen gelfyddydol o safon uchel.
- Rydym yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu diwylliant o ddiddordeb mewn ymgysylltu â'r celfyddydau, ac maent yn dod i arfer â bod yn gynulleidfa weithredol a gallu mynychu digwyddiadau celfyddydol yn annibynnol.
- Mae pobl ifanc sy'n rhan o Sparc yn gwneud a chreu eu gwaith eu hunain, a thrwy hynny maent yn darganfod eu hunaniaethau a'u dyfodol eu hunain.
- Trwy ddatblygu perthnasoedd hirdymor â sefydliadau celfyddydol a chwmnïau cynhyrchu, mae pobl ifanc yn cael mynediad at lwybrau a hyfforddiant pellach.
- Mae sefydliadau celfyddydol yn cael budd o ddealltwriaeth a chydabyddiaeth o sut i weithio'n llwyddiannus mewn cymunedau difreintiedig.
- Mae pobl ifanc yn datblygu sgiliau creu digidol, gan ehangu eu gwybodaeth o dechnoleg ddigidol a chyrraedd cynulleidfa ehangach ar gyfer eu straeon a'u hymarfer artistig.
- Trwy weithio mewn partneriaeth gydag Yn Gryfach Ynghyd, rydym yn cynyddu'r cyfleoedd ym maes y celfyddydau ar gyfer pobl ifanc o'r Cymoedd.
- Trwy ein gwaith gydag Yn Gryfach Ynghyd, mae pobl ifanc o'r Cymoedd, a phobl ifanc o Gaerdydd, yn gallu gwneud a chreu gwaith gyda'i gilydd, a rhannu syniadau a phroblemau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Trwy Sky High, bydd Sparc yn cyrraedd cynulleidfa ehangach a mwy amrywiol, a fydd yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o'n gwaith.
- Trwy ein rhaglen Sparc+, bydd pobl ifanc yn cael mynediad at lwybrau yn y diwydiant creadigol, a chyfleoedd gwaith i ddatblygu sgiliau a hyder a fydd yn eu paratoi i fod yn barod am waith.
- Mae Sparc yn sicrhau amgylchedd cynhwysol, sy'n annog amrywiaeth yn frwd. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu ein cyrhaeddiad ar gyfer pobl a chanddynt nodweddion gwarchodedig.
- Trwy ddatblygu ein strategaeth iaith Gymraeg, bydd Sparc yn ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd yn ddwyieithog a thrwy eu dewis iaith.
- Mae oedolion hŷn yn datblygu hyder ac yn ymladd yn erbyn bod yn ynysig ac unig trwy gyfrwng y sesiynau celf rheolaidd, a thrwy greu a gwneud eu gwaith eu hunain gyda'r Artist Preswyl.
- Mae artistiaid lleol, addawol, cenedlaethol a rhyngwladol yn cael cyfle i guradu, dangos a datblygu eu gwaith mewn oriel broffesiynol, gyda chymorth Artist Preswyl profiadol o Plant y Cymoedd.

Cael Mynediad at Swyddi a Chyfleoedd

CEFNOGI POBL LEOL I MEWN I WAITH

VALLEYSKIDS.ORG



Mae Plant y Cymoedd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod swyddi a chyfleoedd ar gael i'r gymuned ehangaf bosibl. Rydym yn gweithio mewn ardaloedd gyda dros 40% o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd, ac rydym yn gwneud popeth posibl i annog pobl leol i gymryd rhan yn ein gwaith.

Rhoddir cyfle i'r bobl ifanc sy'n gwirfoddoli drwy'r rhaglen i wneud cais am brentisiaethau a dod yn Aelodau Cyswllt o Sparc. I ddatblygu capasiti, rydym yn annog Prosiectau dan Arweiniad Cyfoedion. Bu'r dull hwn yn hynod lwyddiannus wrth i bobl leol yn ein cymunedau ddechrau sylweddoli bod y celfyddydau'n llwybr gyrfaol dilys. Mae hefyd wedi ehangu amrywiaeth ein gweithlu, gan ein galluogi i gyflogi artistiaid LHDTc+ a rhai o'r Mwyafrif Byd-eang sydd wedi cyfrannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth eu hunain.

Mae'r sgiliau y mae pobl ifanc yn eu caffael drwy'r gwaith hwn yn cynyddu hunanhyder, gwaith tîm, sgiliau cyfathrebu, a'r hyder iddynt gyflwyno eu gwaith yn gyhoeddus. Mae'r rhain oll yn sgiliau trosglwyddadwy.

Rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn hysbysebu ein gwaith yn genedlaethol, drwy ein rhwydweithiau megis CWYVS, Youth Cymru a gwasanaethau diwylliannol yr awdurdod lleol, a chyda'n 15 partner o Gwnewch e!, i alluogi'r mynediad ehangaf posibl at swyddi a chyfleoedd. Rydym yn gwneud defnydd llawn o'r cyfryngau cymdeithasol, ond rydym hefyd yn hysbysebu yn y wasg leol gan ein bod yn sylweddoli mai mynediad cyfyngedig at y Rhyngrwyd sydd ar gael mewn rhai o'n cymunedau.

Meysydd i'w Datblygu

Rydym yn annog mwy o amrywiaeth yn ein gweithle. Fodd bynnag, mae'r gynrychiolaeth o'r Mwyafrif Byd-eang yn y sefydliad yn isel, a gellir priodoli hyn yn rhannol i ddemograffeg yr ardal - ond mae hyn yn newid hefyd. Drwy ein cyfranogiad yn y Rhaglen Newid Diwylliant, rydym yn gweithio'n agos gyda Chyflogwyr Cynhwysol (sy'n arbenigwyr yn y maes hwn) i greu cynllun gweithredu ar gyfer Plant y Cymoedd i gyd, a fydd yn gwella'r gefnogaeth ac yn cynyddu'r gynrychiolaeth. I arwain ar hyn ceir pecyn gwrth-hiliaeth, a gynlluniwyd i gefnogi'r rhaglen a helpu gyda tharged Llywodraeth Cymru i Gymru fod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030.

Mae Sparc yn parhau i sicrhau cynrychiolaeth glir mewn deunydd marchnata a chyhoeddusrwydd, gan wneud ein gwaith yn fwy deniadol i Weithwyr Celf leuenctid y Mwyafrif Byd-eang.

Manylion y Gynrychiolaeth ar y Bwrdd

VALLEYSKIDS.ORG



Er mwyn cymhwyso i fod yn aelod o Fwrdd Plant y Cymoedd, rhaid i chi fod wedi gwirfoddoli neu gyfrannu'n sylweddol at waith Plant y Cymoedd yn y gorffennol. Yn y modd hwn, gallwn recriwtio pobl leol i'n Bwrdd sydd ag ystod eang o arbenigeddau ac sy'n barod i wneud cyfraniad hirdymor ac ystyrion i ddatblygiad cyffredinol Plant y Cymoedd. Bu'r math hwn o lywodraethiant yn hynod lwyddiannus, ac mae wedi galluogi dull llywodraethu o'r gwaelod i'r brig, lle bynnag y bo modd, gyda phobl leol yn gwneud y penderfyniadau. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gofyn am adolygiad o'r dull hwn. Yn ei ymateb, paratodd y Bwrdd bapur egluro ar gyfer ein cyllidwyr, ac yn ddiweddar cynhaliodd Ddiwrnod Cwrdd i Ffwrdd i edrych ar sut yr oedd y Bwrdd yn gweithio ac i drafod dyfodol mwy cynaliadwy ar gyfer Plant y Cymoedd.

Ar ein Bwrdd, mae gennym ar hyn o bryd:

- Chwe menyw a phedwar dyn. Mae'r oedran yn amrywio o 25 oed i dros 60 oed.
- Un aelod du.
- Dau siaradwr Cymraeg a nifer o ddysgwyr.
- Dau oedolyn ifanc sy'n ymddiriedolwyr, y mae un ohonynt yn brentis.

Manylion am Gynrychiolaeth Staff Sparc

- Ar hyn o bryd, mae gennym 3 aelod o staff llawn amser yn gweithio i Sparc; maent i gyd yn byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf, ac roedd 2 ohonynt yn aelodau o Blant y Cymoedd.
- Mae oedran ein tîm yn amrywio o 28 i 62 oed.
- Rydym yn cyflogi Gweithwyr Cyswllt Sparc ar sail lawrydd.
- Mae gennym Weithwyr Cyswllt Sparc o'r Mwyafrif Byd-eang, sy'n LHDTC+, ac sy'n siaradwyr Cymraeg.
- Mae Sparc yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ieuenctid, ac yn cynnig lleoliadau gwaith i ysgolion a phrifysgolion.

Monitro a Mesur y Cynllun

VALLEYSKIDS.ORG



- Mae gennym Fwrdd Celfyddydau Plant y Cymoedd sy'n cwrdd yn chwarterol a bu'n gweithredu ers 2023. Mae Cadeirydd Plant y Cymoedd hefyd yn cadeirio Bwrdd Celfyddydau Plant y Cymoedd, sy'n sicrhau cysondeb, a dod â materion i sylw'r ymddiriedolaeth.
- Mae Bwrdd Celfyddydau Plant y Cymoedd yn cael ei weinyddu a'i oruchwyllo gan y Cyfarwyddwr Celfyddydau (sef Cyfarwyddwr Artistig Sparc yn flaenorol).
- Bydd pob cam gweithredu yn y cynllun yn cael ei adolygu ochr yn ochr â'n targedau strategol ym Mwrdd Celfyddydau Plant y Cymoedd.
- Mae'r tîm rheoli newydd (gan gynnwys y Cyfarwyddwr Celfyddydau) yn gyfrifol am gynrychiolaeth Bwrdd Plant y Cymoedd. Bydd yn monitro cynnydd y gynrychiolaeth well ar ein Bwrdd bob blwyddyn pan fydd Aelodau'r Bwrdd yn cael eu hailbenodi.
- Mae ein Cynllun Busnes yn egluro sut y byddwn yn gwneud ein gwaith yn fwy deniadol i staff a chyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac sy'n ddysgwyr, o'r Mwyafrif Byd-eang ac LHDTG+. Byddwn yn monitro'r cynnydd drwy ein trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol ac, yn fwyaf pwysig, gyda'n cyfranogwyr a byddwn yn parhau i werthuso'r broses.

Mae gan ein Cynllun Busnes, a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2023 ac a gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol, gynllun gweithredu blynyddol sy'n adlewyrchu'r Cynllun Iaith Gymraeg a hefyd yn amlygu'r materion allweddol y bydd angen gweithredu arnynt dros y flwyddyn i ddod.